Ar ddydd Mawrth, 20 Hydref, 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm
PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); M Hughes; T Davies; D Sheppard; D Jones; D R Morgan; Mrs K Walker; Mrs E Davies; Mrs G Price a'r clerc.
Roedd y Cyng. Sir D Suter yn bresennol hefyd

2601 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth Y Cyng. M Evans a T Lewis

2602 **Materion Personol:** Gofynnodd y Cyng. Melvyn Evans a fyddai modd gwneud hi'n hysbys bod y gwasanaeth bws yn debygol o ail-ddechrau i Benbontrhydybeddau yn y dyfodol agos ar gyfnod o dreial. Croesawodd y Cyngor y newyddion.

2603 **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Dim

2604 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2009 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol, oedd yn codi o'r Cofnodion hynny:
Cofnod 2573 Tir Amwynder, Dôl Helyg, Penrhyncoch: (1) Dal i aros am ymateb gan Ceredigion i lythyr y cyngor yn gofyn am eglurhad ynghylch y 'Tir Amwynder'
(2) Ynghylch ffordd yr ystâd: Nid yw hon wedi'i mabwysiadu ar hyn o bryd ond cyflwynir adroddiad yn argymell mabwysiadu gerbron y Cabinet yn y dyfodol agos.
Cofnod 2573 Cynllun Iaith Gymraeg: Dwedodd y Cyng. R Owen fod argymhelliad ar y cynllun yn cael ei baratoi.
Cofnod 2573 Newid Cyfeiriad Post: Mae ffurflenni'n cytuno i'r newid yn y cyfeiriad post wedi'u cwblhau gan y rhan fwyaf o drigolion Penbontrhydybeddau. Pan fydd y gweddill wedi'u harwyddo, anfonir y dogfennau ymlaen i'r Post Brenhinol.
Cofnod 2594 Bylbiau Cennin Pedr: Derbyniwyd dwy sachaid o fylbiau. PENDERFYNWYD y dylai'r clerc eu rhannu a'u dosbarthu i bob cynghorydd eu plannu
Cofnod 2578 Ceisiadau i annerch y Cyngor: Methodd Age Concern ag anfon cynrychiolydd i annerch y Cyngor yn y cyfarfod heddiw. Anfonir gwahoddiad ar gyfer y Flwyddyn Newydd. Mae Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ceredigion wedi cytuno i fynychu cyfarfod mis Rhagfyr.
Cofnod 2546 (Gorffennaf 2009) Gwasanaeth Band Eang ardaloedd Cwmsymlog a Rhoserchan: Anfonwyd llythyr at Elin Jones AC yn gofyn am gyngor ar ffyrdd o wella'r gwasanaeth presennol. PENDERFYNWYD y dylai'r Cyng. R Owen ddilyn trywydd hwn yn ogystal â mater ymyl y ffordd fawr yn suddo ym Mhenbontrhybydeddau.

2605 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**
CCB Un Llais Cymru10.10.09 – Pontrhydfendigaid: Methodd y Cyng. T Davies â mynychu'r cyfarfod oherwydd salwch. Mynychodd y Cyng. D R Morgan a rhoddodd adroddiad llawn ar y materion a drafodwyd.
Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru 08.10.09 - Aberaeron: Dwedodd y Cyng. R Owen fod hwn yn gyfarfod diddorol lle cafwyd adroddiad manwl ar yr estyniad arfaethedig i Ysbyty Bronglais
Cyfarfod Ymgynghorol Ceredigion 13.10.09 - Neuadd Rhydypennau: Mynychodd y Cyng. R Owen a K Walker hwn a dywedwyd bod y Cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr, Bronwen Morgan ac Arweinydd y Cabinet, Keith Evans yn gyfle defnyddiol i godi cwestiynau amrywiol ynglŷn â materion y cyngor. PENDERFYNWYD ysgrifennu i ddiolch am y Cyfarfod.
Pwyllgor Dwyieithrwydd 15.10.09 - Canolfan Rheidol, Aberystwyth: Adroddodd y Cyng. K Walker fod nifer o gynlluniau llwyddiannus i hyrwyddo dwyieithrwydd mewn ysgolion wedi'u disgrifio a bod cynigion wedi'u gosod gerbron i'w hystyried a'u trafod yn y dyfodol, ar ddulliau o hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

2606 **Gwasanaeth Sul y Cofio, 8 Tachwedd, 2009:** Bydd y gwasanaeth yn dechrau yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyncoch am 10.40am pan fydd y Parch. J Livingstone yn bendithio'r torchau, ac yna symudir ymlaen at y Gofeb ar Sgwâr Penrhyncoch am 10.45am. Bydd y Cadeirydd yn gosod y dorch a bydd yr Is-gadeirydd yn darllen y Llith. PENDERFYNWYD

gofyn i'r Heddlu i helpu i reoli'r traffig yn ystod y Gwasanaeth, a chysylltu â chwaraewr biwgl. Awdurdodwyd y clerc i roi £20 i chwaraewr y biwgl o'r arian parod.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

2607 **Eglwys Sant Ioan, Penrhyncoch:** Cais am lythyr o gefnogaeth i gais yr Eglwys am grant o Gist Gymunedol Ceredigion tuag at gostau adnewyddu system wresogi'r Eglwys. PENDERFYNWYD anfon llythyr o gefnogaeth.

2608 **Adran TGC Cyngor Sir Ceredigion:** Hysbysiad na fydd y Cyngor Cymuned bellach yn cael mynediad i Wasanaeth E-bost trwy gyfrwng Gweinydd Ceredigion PENDERFYNWYD gwneud trefniadau i ddefnyddio darparwr gwasanaeth rhyngrwyd arall

2609 **Coed Pinwydd, Tan y Berth, Penrhyncoch:** Hysbysiad gan Ceredigion eu bod yn delio â'r mater hwn.

2610 **Gwahoddiad gan BT i fabwysiadu cabannau ffôn coch:** PENDERFYNWYD peidio â gweithredu.

2611 **Cynllun Grant Toiledau Cymunedol:** Manylion cynllun i annog busnesau lleol i ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus. PENDERFYNWYD ei nodi.

Materion Ariannol

2612 **Crynodeb o Dderbynebau a Thaliadau'r hanner blwyddyn hyd at 30.09.09 (Amg "A")**
Cafodd yr aelodau grynodeb yn dangos y balans agoriadol yn Ebrill (£2,556.25) ynghyd â £11,921.60 derbynebau ac archebiant hyd 30.09.09 - cyfanswm £14,477.85. Ar ôl tynnu'r gwariant o £3,528.88 gadewir balans o **£10,948.97**

Cadarnheir hyn gan ddatganiad cysoni'r banc ar 30.09.09 fel a ganlyn:-

HSBC Cyfrif Cymunedol (taflen 310)	£1,462.18
HSBC Cyfrif Busnes M/M (taflen 109)	£9,556.79
	11,018.97

LLAI sieciau nas cyflwynwyd:

Rhif 933	£50		
Rhif 936	£20	(70.00)	
			£10,948.97

Balans banc net ar 30 Medi 2009: £10,948.97

Adolygiad o gyllideb 2009/10 (Amg "B")
Yn Ebrill 2009 ar £2,556 roedd y swm a gariwyd ymlaen tua £500 yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd pan osodwyd y gyllideb yn Ionawr 2009 fel a ganlyn:

Gwariant Cyfalaf:	£1,500
Rhodd-daliadau	£3,500
Cronfa wrth Gefn:	£1,000
Gwariant Cyffredinol:	£8,000

Gan adolygu'r gyllideb PENDERFYNWYD:

Gwariant Cyfalaf £1,500
Ystyried darparu hysbysfwrdd sengl, synthetig ar gyfer Bancydarren: ar gost o tua £700 (y gost i'w gadarnhau) a hefyd i ystyried gosod hysbysfwrdd sengl gyda gwydr yn lle'r bwrdd di-wydr presennol yn Salem.

Rhodd-daliadau £3,500
Ystyrir ceisiadau am rodd-daliadau, ynghyd â mantolen ddiweddar yng nghyfarfod mis Ionawr

Cronfa wrth Gefn £1,000
Cynyddu'r gronfa wrth gefn o £500 i £1,500

Gwariant Cyffredinol £8,000 (Costau gweinyddu; cynnal a chadw; teithio; cyflog; TAW)
Mae £4,471 ar ôl ar gyfer gwariant cyffredinol hyd 31 Mawrth 2010 llai'r £500 ychwanegol a ddyrannwyd i'r gronfa wrth gefn gan adael balans o £3,971

- Mae angen trwsio rhan uchaf y polyn baner. Y clerc i holi a fydd angen ail-osod y polyn baner cyfan neu dim ond y rhan uchaf.

- Mae rhan uchaf ochr dde'r bwrdd gwybodaeth fotanegol yng Nghwmsymlog wedi dod yn rhydd o'r sylfaen. Y clerc i drefnu ei fod yn cael ei osod yn ôl cyn gynted â phosib.

- Mae angen dwy handlen siâp 'T' a theclynnau cau ar gyfer yr hysbysfyrddau ym Mhenrhyncoch. Y clerc i archebu'r rhain gan y cyflenwyr.

Edrychwyd ar y gwariant cyffredinol hyd yn hyn yn erbyn y symiau a neilltuwyd, ac roedd i'w weld yn foddhaol.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

2613 **L Griffiths** – cyfieithu Medi 2009 - **£85.59** siec 939

2614 **P Walker** - Postio/arian parod £56.27 llai £52.34 gordaliad Mawrth 2009: £3.93
Milltiroedd – 182 milltir @ 60.1c y/f : £109.38 – **Cyfanswm - £113.31** siec 940

Penderfyniadau Cynllunio:

2615 **A090496** Cwrt, Penrhyncoch - codi stordy - rhoddwyd caniatâd

2616 **Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol i'w ystyried:**
A090693 8 Maes Seilo, Penrhyncoch – estyniad a gwelliannau. Dim gwrthwynebiad

2617 **Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00pm ar Ddydd Mawrth, 17 Tachwedd 2009.**

2618 **Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**
Gofyn am ymateb gan yr Adran Briffyrdd i'r gŵyn ynghylch llifogydd yng ngarej 1 Brogerddan, Penrhyncoch.
Gofyn am ymateb i'r gŵyn ynghylch ymyl y ffordd fawr yn suddo ym Mhenbontrhydybeddau.
Cais am lwybr troed rhwng y Swyddfa Bost a'r llwybr tu cefn i ystâd Tanyberth, Penrhyncoch.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25pm.